ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD
Tachwedd 2019

Penblwydd Arbennig Ysgol Eifionydd – 1894 - 2019

Roedd 1894 yn flwyddyn fawr! Agorwyd camlas llongau Manceinion, chwaraewyd y gêm bêl fasged coleg gyntaf, dyfeisiwyd y morthwyl niwmatig ac roedd William Gladstone esq. yn Brifweinidog. Ond yma yn Eifionydd roedd datblygiadau mawr ar y gweill, pan agorwyd drysau Ysgol Ganolradd Porthmadog am y tro cyntaf. Erbyn heddiw Ysgol Eifionydd yw hi i bawb ohonom ac eleni rydym yn dathlu 125 o flynyddoedd ers ei sefydlu. Gobeithiwn gynnal nifer o weithgareddau ar y cyd gyda'r gymuned i ddathlu'r garreg filltir hon. Yn y gwanwyn, byddwn yn cynnal Cyngerdd Mawreddog yn y Ganolfan yng nghwmni disgyblion presennol a chyn ddisgyblion yr ysgol. Yn Nhymor yr Haf byddwn yn gwahodd disgyblion ysgolion cynradd y dalgylch â'r gymuned ehangach i gystadlu mewn twrnament chwaraeon. Ond cyn hynny byddwn yn eich gwahodd i gyd, yn gyn-ddisgyblion, yn gyn-athrawon a chyfeillion i ymuno â ni mewn bore coffi i rannu atgofion. Tybed a oes gennych hen luniau, neu hanesion papur newydd diddorol fyddai o ddiddordeb i ni er mwyn creu arddangosfa o hanes yr ysgol ar gyfer ein achlysur? Byddwn yn dychwelyd pob llun neu bapur newydd os gellir cynnwys enw a chyfeiriad arnynt.



Ymweliad Disgyblion Bl.6 - Ar y 15fed o Hydref daeth disgyblion Bl.6 i gael gwers Wyddoniaeth hefo Mr. Bowen y Pennaeth a gwers Dechnoleg gyda Mr. Roger Vaughan. Treuliodd disgyblion o Ysgol Eifion Wyn gyfnod o'r wers Wyddoniaeth yn gwneud arbrawf fflamau ar gyfer cemegion a bu disgyblion o Ysgol Garndolbenmaen yn gwneud gwaith efo plastigion gyda Mr. Vaughan.

Taith yr Adran Gerdd i Lerpwl - ar fore Mercher 16eg o Hydref cychwynnodd Miss Llio Dudley a Mrs. Gwenno Gibbard Bolton gyda nifer o ddisgyblion o bob blwyddyn ar daith i'r Empire Theatre yn Lerpwl i weld y sioe gerdd Les Miserables. Mwynhaodd y disgyblion berfformiad gwefreiddiol cwmni o'r West End ac mae gobaith i gael mynd i weld sioe arall eto flwyddyn nesaf.

Noson Agored - Cynhaliwyd Noson Agored yn yr ysgol ar yr 22ain o Hydref ar gyfer disgyblion Bl.5 a 6 ysgolion cynradd y dalgylch. Dyma gyfle ardderchog i ddarpar ddisgyblion a'u rhieni i gael blas ar yr hyn sydd gan Ysgol Eifionydd i'w gynnig. Cafwyd noson lwyddiannus iawn a'r adborth yn hynod bositif. Diolch yn fawr i'r disgyblion fu'n helpu ar y noson.

Dyma ddisgyblion y cynradd yn mwynhau eu hunain yn nosbarth Saesneg Mrs. Mary Gwyn.



Gwerthu Cacennau ar gyfer Elusen Cancr Macmillan - Ar ddiwedd tymor prysur bu disgyblion BAC Bl.11 yn hynod lwyddiannus yn gwerthu cacennau dros gyfnod dwy egwyl foreol er mwyn codi arian ar gyfer Elusen Cancr Macmillan. Bu nifer o'r staff, plant a rhieni yn brysur yn pobi cacennau a danteithion o bob math ar gyfer yr achlysur. Llwyddwyd i godi £70.00 ar gyfer yr elusen deilwng hon. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

Ymgyrch Nadolig - 2019. Rydym fel ysgol yn ceisio casglu 1001 o eitemau ar gyfer y Banc Bwyd lleol erbyn y Nadolig a byddem yn falch dros ben am unrhyw gyfraniad. Croeso i chwi ddod â bwyd (gyda digon o ddyddiad arnynt) neu eitemau glendid personol i Swyddfa Ysgol Eifionydd. Diolch.